O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 131 (Cy.31)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40 a'r A479 (Cefncoedycymer, Merthyr Tudful i Gwm-bach Llechryd, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Cherddwyr Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *5 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470), Cefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40) a Chefnffordd Glanusk Park (Crucywel) – Llys-wen (yr A479) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd am ei bod yn debyg y byddai cludo llwythi anwahanadwy annormal yn achosi perygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40 a'r A479 (Cefncoedycymer, Merthyr Tudful i Gwm-bach Llechryd, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Cherddwyr Dros Dro) 2011.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 5 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd y llwythi anwahanadwy annormal wedi cyrraedd pen eu taith;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A470, yr A40 a'r A479 ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt y gyffordd rhwng cefnffyrdd yr A470 a'r A465 ger Cefncoedycymer, Merthyr Tudful hyd at bwynt 1000 o

fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y bont reilffordd sy'n cario Llinell Reilffordd Calon Cymru dros gefnffordd yr A470 yng Nghwm-bach Llechryd, Powys.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darnau o'r cefnffyrdd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cludo, fynd ar gerdded ar hyd y darnau o'r cefnffyrdd.

**5.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd yr heddlu'n hysbysu bod y gwaharddiadau y mae'r darpariaethau hynny'n cyfeirio atynt yn weithredol.

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 24 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.